

## "Faint o oriau cyfeiriedig sydd gan athrawon?"

Oriau cyfeiriedig yw'r uchafswm oriau y mae athro i fod ar gael i weithio dan gyfarwyddyd, a hynny ar adeg ac mewn lleoliad o ddewis y Pennaeth. Dylai'r ysgol gadw cofnod o'r amser cyfeiriedig a sicrhau na fydd athrawon yn mynd dros yr oriau cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Byddai'n ddoeth caniatáu rhywfaint o amser dros ben, rhag ofn bod rhywbeth annisgwyl yn codi cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

Mae disgwyl, hefyd, i athrawon weithio oriau ychwanegol i'r oriau cyfeiriedig, ar amser ac mewn lleoliad o'u dewis nhw, er mwyn cyflawni gofynion y swydd.

Mae disgwyl i athro llawn-amser fod ar gael i weithio am 1265 o oriau wedi eu rhannu'n rhesymol ar draws 195 diwrnod ysgol, sef:

- 190 diwrnod ar gyfer addysgu disgyblion a pherfformio dyletswyddau eraill
- 5 diwrnod ar gyfer perfformio dyletswyddau eraill

Mae disgwyl i athrawon rhan-amser fod ar gael i weithio'r canran o 1265 awr sy'n addas i'w swydd.

Tafleuni UCAC:

- [Oriau Cyfeiriedig](#)
- [Gweithio'n Rhan Amser: Tâl ac Amodau Gwaith Athrawon Rhan Amser](#)